



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

**2000 Rhif 1078 (Cy. 71)**

**2000 No. 1078 (W. 71)**

**PYSGODFEYDD MÔR,  
CYMRU**

**SEA FISHERIES,  
WALES**

**Gorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi  
Mesurau Cymunedol ar gyfer  
Monitro â Lloeren) (Cymru) 2000**

**The Sea Fishing (Enforcement of  
Community Satellite Monitoring  
Measures) (Wales) Order 2000**

**NODYN ESBONIADOL**

**EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn.)*

*(This note does not form part of the Order.)*

Mae'r Gorchymyn hwn, sy'n gymwys i Gymru a'r môr tiriogaethol cyfagos at Gymru, yn darparu ar gyfer gorfodi Erthyglau 3 a 28c o Reoliad y Cyngor (EEC) Rhif 2847/93 sy'n sefydlu system reoli sy'n gymwys ar gyfer y polisi pysgodfeydd cyffredin a Rheoliad y Comisiwn (EC) 1489/97 sy'n pennu rheolau manwl ar gyfer cymhwyso Rheoliad y Cyngor (EEC) Rhif 2847/93 o ran systemau sydd wedi'u seilio ar loeren ar gyfer monitro cychod.

Mae'r Rheoliadau hynny yn darparu ar gyfer trosglwyddo adnabyddiaeth cychod ac adroddiadau ar eu lleoliad drwy gyfrwng lloeren gan gychod pysgota sy'n mesur mwy nag 20 metr rhwng y sythlinau neu fwy na chyfanswm o 24 metr o hyd. Erthygl 3 o'r Gorchymyn yw'r brif ddarpariaeth sy'n rhoi eu heffaith i'r gofynion hyn.

Mae'r Gorchymyn yn creu tramgwyddau mewn perthynas â thorri'r darpariaethau y cyfeirir atynt yn erthygl 4 o'r Gorchymyn hwn, gan gynnwys torri erthyglau 6.1 a 6.2 o Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1489/97. Mae erthyglau 6.1 a 6.2 yn ei gwneud yn ofynnol bod yr wybodaeth a fynnyd (fel y'i diffinnir yn erthygl 2(1) o'r Gorchymyn) yn cael ei hanfon at Aelod-wladwriaeth y faner ac at Aelod-wladwriaeth yr arfordir o dan sylw drwy ddull arall, o leiaf bob 24 awr, os ceir methiant technegol neu os bydd naill ai dyfais olrhain loerennol a osodwyd ar gwch pysgota neu system monitro cychod Aelod-wladwriaeth y faner yn methu â gweithredu. Hefyd, os ceir methiant technegol

This Order, which applies to Wales and the territorial sea adjacent to Wales, provides for the enforcement of Articles 3 and 28c of Council Regulation (EEC) No. 2847/93 establishing a control system applicable to the common fisheries policy and Commission Regulation (EC) 1489/97 laying down detailed rules for the application of Council Regulation (EEC) No. 2847/93 as regards satellite-based vessel monitoring systems.

Those Regulations provide for the transmission via satellite of vessel identification and location reports by fishing boats measuring more than 20 metres between perpendiculars or more than 24 metres in overall length. Article 3 of the Order is the principal provision giving effect to these requirements.

The Order creates offences in respect of breaches of the provisions referred to in article 4 of this Order, including breaches of articles 6.1 and 6.2 of Commission Regulation (EC) No. 1489/97. Articles 6.1 and 6.2 require the required information (as defined in article 2(1) of the Order) to be sent to the flag Member State and the concerned coastal Member State by alternative means, at least every 24 hours, in the event of a technical failure or non-function of either a satellite tracking device installed on a fishing boat or the vessel monitoring system of the flag Member State. Also, in the event of a technical failure or non-function of a satellite tracking device the owner is required to

neu os na fydd dyfais olrhain loerennol yn gweithredu, mae'n ofynnol i'r perchennog drefnu ei thrwsio neu ei hamnewid o fewn un mis neu, pan geir digwyddiad o'r fath yn ystod taith pysgota sy'n para mwy na mis, cyn gynted ag y daw'r cwch pysgota i borthladd. Nid awdurdodir meist'r y cwch pysgota i ddechrau taith pysgota newydd nes bod y ddyfais olrhain loerennol wedi'i thrwsio neu wedi'i hamnewid felly.

Mae'r cosbau am dorri'r darpariaethau y cyfeirir atynt yn erthygl 4 o'r Gorchymyn hwn i'w gweld yn erthygl 5 o'r Gorchymyn.

Er mwyn gorfodi'r Gorchymyn hwn, yn y môr tiriogaethol cyfagos at Gymru rhoddir pwerau i swyddogion pysgodfeydd môr Prydeinig fynd ar fwrdd cychod pysgota, chwilio, archwilio a phrofi offer y cwch, ei gwneud yn ofynnol bod dogfennau'n cael eu cyflwyno a chymryd y cwch i'r porthladd cyfleus agosaf (erthygl 7).

Gwneir darpariaeth hefyd ar gyfer erlyn tramgwyddau newid adnabyddiaeth dyfais olrhain loerennol a osodwyd ar gwch pysgota neu dynnu'r ddyfais oddi ar y cwch heb awdurdod blaenorol (erthygl 4(3)), ymyrryd â throsglwyddiadau o'r ddyfais neu roi gwybodaeth ffug yn fwriadol (erthygl 4(4)), a rhwystro swyddogion pysgodfeydd môr Prydeinig (erthygl 9). Nodir y cosbau yn sgil collfarnu yn erthyglau 5(2) a 9. Uchafswm statudol y gosb a bennir yn y Gorchymyn yw £5,000 ar hyn o bryd.

Mae'r Gorchymyn yn darparu pwerau ar gyfer casglu dirwyon a osodwyd gan lysoedd ynadon (erthygl 6).

Mae erthyglau 8, 10 ac 11 yn cynnwys darpariaethau ategol.

have it repaired or replaced within one month or, where such event occurs during a fishing trip that lasts for more than one month, as soon as the fishing boat enters a port. The master of the fishing boat is not authorised to commence a new fishing trip until the satellite tracking device has been so repaired or replaced.

Penalties for contravention of the provisions referred to in article 4 of this Order are to be found in article 5 of the Order.

For the purpose of enforcing this Order British sea-fishery officers are given, within the territorial sea adjacent to Wales, powers to board fishing boats, to search, examine and test the equipment of the boat, to require the production of documents and to take the boat to the nearest convenient port (article 7).

Provision is also made for the prosecution of offences of changing the identification of a satellite tracking device installed on a fishing boat or removing the device from the boat without prior authorisation (article 4(3)), interfering with transmissions from the device or knowingly furnishing false information (article 4(4)), and obstruction of British sea-fishery officers (article 9). Penalties following conviction are set out in articles 5(2) and 9. The statutory maximum penalty specified in the Order is currently £5,000.

The Order provides powers for the recovery of fines imposed by a magistrate's court (article 6).

Articles 8, 10 and 11 contain ancillary provisions.

2000 Rhif 1078 (Cy. 71)

2000 No. 1078 (W. 71)

**PYSGODFEYDD MÔR,  
CYMRU**

**SEA FISHERIES,  
WALES**

**Gorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi  
Mesurau Cymunedol ar gyfer  
Monitro â Lloeren) (Cymru) 2000**

**The Sea Fishing (Enforcement of  
Community Satellite Monitoring  
Measures) (Wales) Order 2000**

*Wedi'i wneud*

6 Ebrill 2000

*Made*

6th April 2000

*Yn dod i rym*

7 Ebrill 2000

*Coming into force*

7th April 2000

Drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 30(2) o Ddeddf Pysgodfeydd 1981(a), sydd bellach wedi'u breinio ynddo, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru(b) drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:-

In exercise of the powers conferred by section 30(2) of the Fisheries Act 1981(a), which are now vested in it, the National Assembly for Wales(b) hereby makes the following Order:-

**Enwi, cychwyn a chymhwysio**

**Title, commencement and application**

1.-(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi Mesurau Cymunedol ar gyfer Monitro â Lloeren) (Cymru) 2000 a daw i rym ar 7 Ebrill 2000.

1.-(1) This Order may be cited as the Sea Fishing (Enforcement of Community Satellite Monitoring Measures)(Wales) Order 2000 and shall come into force on 7th April 2000.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru a'r môr tiriogaethol cyfagos at Gymru, a bydd darpariaethau erthygl 6 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 yn effeithiol ar gyfer penderfynu pa rannau o'r

(2) This Order applies to Wales and the territorial sea adjacent to Wales, and the provisions of article 6 of the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 shall have effect for determining those parts of the sea which are to be

(a) 1981 p.29; gweler adran 30(3) i gael y diffiniadau o "cyfyngiad Cymunedol gorfodadwy" ("enforceable Community restriction"), "rhwymedigaeth Gymunedol orfodadwy" ("enforceable Community obligation") ac "y Gweinidogion" ("the Ministers") fel y'u diwygiwyd gan Atodlen 2 paragraff 68(5) i Orchymyn Deddf yr Alban 1998 (Addasiadau Canlyniadol) (Rhif 2) 1999 (O.S. 1999/1820). Mae erthygl 3(1) o Orchymyn Deddf yr Alban 1998 (Swyddogaethau Cyfamserol) 1999 (O.S. 1999/1592) ac Atodlen 1 iddi yn darparu i'r swyddogaethau sy'n arferadwy o dan adran 30(2) o Ddeddf 1981 gael eu harfer gan y Gweinidogion, yn gyfamserol â Gweinidogion yr Alban, mewn perthynas â'r canlynol: cychod pysgota Prydeinig perthnasol o fewn y parth Albanaidd; a chychod pysgota yr Alban o fewn ffiniau pysgodfeydd Prydain ond y tu allan i'r parth Albanaidd (am "y parth Albanaidd" gweler adran 126 o Ddeddf yr Alban 1998 (p.46) a Gorchymyn Ffiniau Dyfroedd Cyfagos at yr Alban 1999 (O.S. 1999/1126)).

(b) Yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), trosglwyddwyd swyddogaethau'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd, a swyddogaethau'r Ysgrifenyddion Gwladol ynglŷn â physgota môr yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon o dan adran 30(2) o Ddeddf Pysgodfeydd 1981 (p.29), i'r graddau yr oeddent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

(a) 1981 c.29; see section 30(3) for the definitions of "enforceable Community restriction" ("cyfyngiad Cymunedol gorfodadwy"), "enforceable Community obligation" ("rhwymedigaeth Gymunedol orfodadwy") and "the Ministers", ("y Gweinidogion") as modified by Schedule 2 paragraph 68(5) of the Scotland Act 1998 (Consequential Modifications)(No.2)Order 1999 (S.I. 1999/1820). Article 3(1) and Schedule 1 of the Scotland Act 1998 (Concurrent Functions) Order 1999 (S.I. 1999/1592) provide for the functions exercisable under section 30(2) of the 1981 Act to be exercised by the Ministers, concurrently with Scottish Ministers, in relation to: relevant British fishing boats within the Scottish zone; and Scottish fishing boats within British fishery limits but outside the Scottish zone (for "the Scottish zone" see section 126 of the Scotland Act 1998 (c.46) and the Scottish Adjacent Waters Boundaries Order 1999 (S.I. 1999/1126)).

(b) By virtue of the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672), the functions of the Minister of Agriculture Fisheries and Food, and the Secretaries of State respectively concerned with sea fishing in Wales, Scotland and Northern Ireland under section 30(2) of the Fisheries Act 1981 (c.29) were, so far as they were exercisable in relation to Wales, transferred to the National Assembly for Wales.

môr y dylid eu trin fel rhai sy'n gyfagos at Gymru a pha rai na ddylid eu trin felly(a).

## Dehongli

2.-(1) Yn y Gorchymyn hwn -

ystyr “Aelod-wladwriaeth” (“*Member State*”) yw un o Aelod-wladwriaethau'r Gymuned Ewropeaidd;

ystyr “Canolfan Monitro Pysgodfeydd” (“*Fisheries Monitoring Centre*”) yw canolfan monitro pysgodfeydd a sefydlir o dan Erthygl 3.7 o Reoliad 2847/93;

mae “cwch pysgota” (“*fishing boat*”) yn cynnwys cwch derbyn o fewn ystyr Rheoliad 2847/93;

ystyr “cwch pysgota Albanaidd” (“*Scottish fishing boat*”) yw cwch pysgota a gofrestrwyd yn y gofrestr a gedwir o dan adran 8 o Ddeddf Llongau Masnachol 1995(b) ac y mae ei fanylion yn y gofrestr yn pennu porthladd yn yr Alban fel y porthladd y dylid ei drin fel y porthladd y mae'r cwch yn perthyn iddo;

ystyr “cwch pysgota Prydeinig perthnasol” (“*relevant British fishing boat*”) yw cwch pysgota, heblaw cwch pysgota Albanaidd, sydd naill ai wedi'i gofrestru yn y Deyrnas Unedig o dan Ran II o Ddeddf Llongau Masnachol 1995 neu sy'n perthyn yn gyfan gwbl i bersonau sy'n gymwys i berchenogi cychod Prydeinig at ddibenion y Rhan honno o'r Ddeddf honno;

ystyr “dyfais olrhain loerennol” (“*satellite tracking device*”) yw dyfais ar gyfer anfon yr wybodaeth a fynnyd at Ganolfan Monitro Pysgodfeydd o gwch pysgota drwy gyfrwng lloeren a gorsaf ar y ddaear;

ystyr “yn gallu cael ei pholio” (“*capable of being polled*”), mewn perthynas â dyfais olrhain loerennol, yw:

- (a) yn gallu derbyn cais gan Ganolfan Monitro Pysgodfeydd i roi'r wybodaeth a fynnyd i'r Ganolfan honno ar amser heblaw'r amser sy'n ofynnol o dan erthygl 3(4) o'r Gorchymyn hwn; a

---

(a) Pennir y môr tiriogaethol cyfagos at Gymru yn unol â darpariaethau adran 1 o Ddeddf Môr Tiriogaethol 1987 (p.47) ac ag unrhyw ddarpariaethau a wnaed, neu sy'n dwyn effaith fel pe baent wedi'u gwneud, o dan yr adran honno. Pennir y ffin rhwng y rhannau hynny o'r môr yn Aberoedd Hafren a Dyfrdwy a drinir fel moroedd tiriogaethol cyfagos at Gymru, a'r rhannau na thrinir felly, yn unol â'r cyfesurannau a nodir yn Atodlen 3 i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(b) 1995 p.21.

treated as adjacent to Wales and those which are not(a).

## Interpretation

2.-(1) In this Order-

“capable of being polled” (“*yn gallu cael ei pholio*”), in relation to a satellite tracking device, means:

- (a) capable of receiving a request by a Fisheries Monitoring Centre to provide that Centre with the required information at a time other than that required by article 3(4) of this Order, and
- (b) immediately providing the required information to that Centre in response;

“Community satellite monitoring measure” (“*mesur Cymunedol ar gyfer monitro â lloeren*”) means a provision of:

- (a) Article 3 and Article 28c, in so far as it relates to satellite-based vessel monitoring systems, of Regulation 2847/93, or
- (b) Regulation 1489/97;

“Fisheries Monitoring Centre” (“*Canolfan Monitro Pysgodfeydd*”) means a fisheries monitoring centre established under Article 3.7 of Regulation 2847/93;

“fishing boat” (“*cwch pysgota*”) includes a receiving vessel within the meaning of Regulation 2847/93;

“Member State” (“*Aelod-wladwriaeth*”) means a Member State of the European Community;

“Regulation 2847/93” (“*Rheoliad 2847/93*”) means Council Regulation (EEC) No. 2847/93 establishing a control system applicable to the common fisheries policy(b) as amended by Council Regulation (EC) No. 2870/95(c), Council Decision (EC) 95/528(d), Council Regulation (EC) 2489/96(e), Council Regulation (EC) 686/97(f), Council Regulation (EC) 2205/97(g), Council Regulation (EC) 2635/97(h) and Council Regulation (EC) 2846/98(i);

“Regulation 1489/97” (“*Rheoliad 1489/97*”) means Commission Regulation (EC) No. 1489/97 laying down detailed rules for the application of Council

---

(a) The territorial sea is determined in accordance with the provisions of section 1 of the Territorial Sea Act 1987 (c.47) and with any provisions made, or having effect as if made, under that section. The boundary between those parts of the sea within the Severn and Dee Estuaries which are treated as being territorial seas adjacent to Wales, and those which are not, is determined in accordance with the co-ordinates set out in Schedule 3 to the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

(b) OJ No. L261, 20.10.93, p.1.

(c) OJ No. L301, 14.12.95, p.1.

(d) OJ No. L301, 14.12.95, p.35.

(e) OJ No. L338, 28.12.96, p.12.

(f) OJ No. L102, 19.4.97, p.1.

(g) OJ No. L304, 7.11.97, p.1.

(h) OJ No. L356, 31.12.97, p.14.

(i) OJ No. L358, 31.12.98, p.5.

- (b) yn rhoi'r wybodaeth a fynnwyd i'r Ganolfan honno ar unwaith mewn ymateb;

ystyr "gwybodaeth a fynnwyd" ("*required information*") yw data ynghylch -

- (a) adnabyddiaeth y cwch pysgota;
- (b) lleoliad daearyddol diweddaraf y cwch pysgota wedi'i fynegi mewn graddau a munudau o hydred a lledred o fewn lwfans cyfeiliornad o lai na 500 metr ac o fewn cyfwng hyder o 99%; ac
- (c) dyddiad ac amser pennu'r lleoliad hwnnw;

ystyr "mesur Cymunedol ar gyfer monitro â lloeren" ("*Community satellite monitoring measure*") yw un o ddarpariaethau:

- (a) Erthygl 3 ac Erthygl 28c, i'r graddau y mae'n cyfeirio at systemau monitro cychod sydd wedi'u seilio ar loeren, yn Rheoliad 2847/93; neu
- (b) Rheoliad 1489/97;

ystyr "Rheoliad 2847/93" ("*Regulation 2847/93*") yw Rheoliad y Cyngor (EEC) Rhif 2847/93 sy'n sefydlu system rheoli sy'n gymwys ar gyfer y polisi pysgodfeydd cyffredin(a) fel y'i diwygiwyd gan Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 2870/95(b), Penderfyniad y Cyngor (EC) 95/528(c), Rheoliad y Cyngor (EC) 2489/96(ch), Rheoliad y Cyngor (EC) 686/97(d), Rheoliad y Cyngor (EC) 2205/97(dd), Rheoliad y Cyngor (EC) 2635/97(e), a Rheoliad y Cyngor (EC) 2846/98(f);

ystyr "Rheoliad 1489/97" ("*Regulation 1489/97*") yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1489/97 yn pennu rheolau manwl ar gyfer cymhwyso Rheoliad y Cyngor (EEC) Rhif 2847/93 o ran systemau monitro cychod sydd wedi'u seilio ar loeren(ff) fel y'i cywirwyd gan Reoliad y Comisiwn (EC) 434/98(g) a'i diwygio gan Reoliad y Comisiwn (EC) 831/99(ng) a Rheoliad y Comisiwn (EC) 2445/99(h);

ystyr "tramgwydd perthnasol" ("*relevant offence*") yw:

- (a) tramgwydd o dan Erthygl 4 o'r Gorchymyn hwn; neu
- (b) tramgwydd o dan unrhyw ddarpariaeth mewn

Regulation (EEC) No. 2847/93 as regards satellite-based vessel monitoring systems(a) as corrected by Commission Regulation (EC) 435/98(b) and amended by Commission Regulation (EC) 831/99(c) and Commission Regulation (EC) 2445/99(d) ;

"relevant British fishing boat" ("*cwch pysgota Prydeinig perthnasol*") means a fishing boat, other than a Scottish fishing boat, which either is registered in the United Kingdom under Part II of the Merchant Shipping Act 1995(e) or is owned wholly by persons qualified to own British ships for the purposes of that Part of that Act;

"relevant offence" ("*tramgwydd perthnasol*") means:

- (a) an offence under Article 4 of this Order, or
- (b) an offence under any provision in an order extending to any other part of the United Kingdom made for the purposes of implementing a Community satellite monitoring measure, being a provision in respect of which, by virtue of section 30(2A) of the Fisheries Act 1981(f), proceedings may be commenced in any place in the United Kingdom;

"required information" ("*gwybodaeth a fynnwyd*") means data relating to-

- (a) the fishing boat's identification;
- (b) the most recent geographical position of the fishing boat expressed in degrees and minutes of longitude and latitude within a margin of error of less than 500 metres and within a confidence interval of 99%; and
- (c) the date and time of the fixing of that position;

"satellite tracking device" ("*dyfais olrhain loerenol*") means a device for sending required information to a Fisheries Monitoring Centre from a fishing boat via a satellite and land earth station;

"Scottish fishing boat" ("*cwch pysgota Albanaid*") means a fishing boat which is registered in the register

(a) OJ Rhif L261, 20.10.93, t.1.

(b) OJ Rhif L301, 14.12.95, t.1.

(c) OJ Rhif L301, 14.12.95, t.35.

(ch) OJ Rhif L338, 28.12.96, t.12.

(d) OJ Rhif L102, 19.4.97, t.1.

(dd) OJ Rhif L304, 7.11.97, t.1.

(e) OJ Rhif L356, 31.12.97, t.14.

(f) OJ Rhif L358, 31.12.98, t.5.

(ff) OJ Rhif L202, 30.7.97, t.18.

(g) OJ Rhif L054, 25.2.98, t.5.

(ng) OJ Rhif L105, 22.4.99, t.20.

(h) OJ Rhif L298, 19.11.99, t.5.

(a) OJ No. L202, 30.7.97, p.18.

(b) OJ No. L054, 25.2.98, p.5.

(c) OJ No. L105, 22.4.99, p.20.

(d) OJ No. L298, 19.11.99, p.5.

(e) 1995 c.21.

(f) Inserted by the Scotland Act 1998 (Consequential Modifications) (No.2) Order 1999 (S.I. 1999/1820).

gorchymyn sy'n ymestyn i unrhyw ran arall o'r Deyrnas Unedig a wneir er mwyn gweithredu mesur Cymunedol ar gyfer monitro â lloeren, sef darpariaeth y gellir dwyn achos mewn perthynas â hi mewn unrhyw le yn y Deyrnas Unedig yn rhinwedd adran 30(2A) o Ddeddf Pysgodfeydd 1981(a);

(2) Yn y Gorchymyn hwn mae unrhyw gyfeiriad at goflyfr, datganiad, dogfen neu wybodaeth a fynnwyd yn cynnwys, yn ogystal â choflyfr, datganiad, dogfen neu wybodaeth a fynnwyd mewn ysgrifen -

- (i) unrhyw fap, plan, graff neu ddarlun,
- (ii) unrhyw ffotograff,
- (iii) unrhyw ddata, sut bynnag y'i hatgynhyrchir, a dderbynnir gan Ganolfan Monitro Pysgodfeydd o ddyfais olrhain loerennol,
- (iv) unrhyw ddisg, tâp, trac sain neu ddyfais arall sy'n recordio seiniau neu ddata arall (nad ydynt yn ddelweddau gweledol) fel bod modd eu hatgynhyrchu oddi arnynt (gyda chymorth unrhyw gyfarpar arall neu hebdo), a
- (v) unrhyw ffilm (gan gynnwys microffilm), negatif, tâp, disg neu ddyfais arall y mae un neu fwy o ddelweddau gweledol yn cael eu recordio arnynt fel bod modd eu hatgynhyrchu oddi arnynt (fel y dywedwyd uchod).

(3) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at un o offerynnau'r Gymuned yn gyfeiriad at yr offeryn hwnnw ac unrhyw ddiwygiad i'r offeryn hwnnw sydd mewn grym ar y dyddiad y gwneir y Gorchymyn hwn.

### **Olrhain cychod pysgota â lloeren**

3.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2) mae'r erthygl hon yn gymwys i unrhyw gwch pysgota o fewn y môr tiriogaethol cyfagos at Gymru sy'n mesur mwy nag 20 metr rhwng y sythlinau neu fwy na chyfanswm o 24 metr o hyd.

(2) Nid yw'r erthygl hon yn gymwys i gwch pysgota o'r fath sydd -

- (a) yn gweithredu'n llwyr o fewn 12 milltir fôr i'r gwaelodlinau y caiff môr tiriogaethol Aelod-wladwriaeth ei faner ei fesur ohonynt, neu
- (b) nad yw byth yn treulio mwy na 24 awr ar y môr, o'i gymryd o'r amser ymadael hyd at amser dychwelyd i'r porthladd.

(3) Rhaid i ddyfais olrhain loerennol -

- (a) cael ei gosod;
- (b) cael ei chadw yn hollol weithredol,

ar gwch pysgota y mae'r erthygl hon yn gymwys iddo.

maintained under section 8 of the Merchant Shipping Act 1995 and whose entry in the register specifies a port in Scotland as the port to which the boat is to be treated as belonging;

(2) In this Order any reference to a logbook, declaration, document or required information includes, in addition to a logbook, declaration, document or required information in writing -

- (i) any map, plan, graph or drawing,
- (ii) any photograph,
- (iii) any data, howsoever reproduced, received by a Fisheries Monitoring Centre from a satellite tracking device,
- (iv) any disk, tape, sound track or other device in which sounds or other data (not being visual images) are recorded so as to be capable (with or without the aid of some other equipment) of being reproduced therefrom, and
- (v) any film (including microfilm), negative, tape, disk or other device in which one or more visual images are recorded so as to be capable (as aforesaid) of being reproduced therefrom.

(3) Any reference in this Order to a Community instrument is a reference to that instrument and any amendment of such instrument in force on the date this Order is made.

### **Satellite tracking of fishing boats**

3.-(1) Subject to paragraph (2) this article applies to any fishing boat within the territorial sea adjacent to Wales which measures more than 20 metres between perpendiculars or more than 24 metres in overall length.

(2) This article does not apply to such a fishing boat which-

- (a) operates exclusively within 12 nautical miles of the baselines from which the territorial sea of its flag Member State is measured, or
- (b) which never spends more than 24 hours at sea taken from the time of departure to the time of return to port.

(3) A satellite tracking device shall-

- (a) be installed;
- (b) be maintained fully operational,

on a fishing boat to which this article applies.

(a) A fewnosodwyd gan Orchymyn Deddf yr Alban 1998 (Addasiadau Canlyniadol) (Rhif 2) 1999 (O.S. 1999/1820).

(4) Rhaid i'r ddyfais olrhain loerennol honno drosglwyddo'r wybodaeth a fynnwyd -

- (a) pan yw'r ddyfais olrhain loerennol yn gallu cael ei pholio:
  - (i) o leiaf bob dwy awr; neu
  - (ii) mewn achos y pennir cyfnod hiraf gwahanol ar ei gyfer yn Atodiad I i Reoliad 1489/97, yn ôl y cyfnod hwnnw neu o fewn y cyfnodau hynny; neu
- (b) pan nad yw'r ddyfais olrhain loerennol yn gallu cael ei pholio, bob awr, a hynny i Ganolfan Monitro Pysgodfeydd yn y fformat a ragnodir gan Atodiad II i Reoliad 1489/97.

### Tramgwyddau

4.-(1) Pan dorrir, neu pan fethir â chydymffurfio -

- (a) ag unrhyw ddarpariaeth yn erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn, neu
- (b) mewn perthynas ag unrhyw gwch pysgota y mae erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn yn gymwys iddo, ag Erthygl 6.1 neu 6.2 o Reoliad 1489/97,

bydd y perchennog, y siartwr (os oes un) a'r meist'r yn euog o dramgwydd.

(2) Bydd yn amddiffyniad mewn achos ynglŷn â thorri erthygl 3(3)(b) neu (4) neu fethu â chydymffurfio â hwy, i berchennog, siartwr (os oes un), neu feistr y cwch brofi ei fod wedi cydymffurfio ag Erthygl 6.1 a 6.2 o Reoliad 1489/97.

- (3) Bydd unrhyw berson a fydd mewn unrhyw ffordd -
  - (a) yn newid, yn amnewid neu'n dyblygu adnabyddiaeth dyfais olrhain loerennol a osodwyd ar gwch pysgota Prydeinig perthnasol; neu
  - (b) yn tynnu'r ddyfais olrhain loerennol oddi ar gwch pysgota o'r fath;

heb roi gwybod ymlaen llaw i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn euog o dramgwydd.

(4) Mewn perthynas ag unrhyw gwch pysgota y mae erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn yn gymwys iddo, bydd unrhyw berson a fydd mewn unrhyw ffordd -

- (a) yn gohirio neu fel arall yn ymyrryd â throsglwyddiad yr wybodaeth a fynnwyd gan ddyfais olrhain loerennol;
- (b) yn ymyrryd â gallu dyfais olrhain loerennol i gael ei pholio; neu
- (c) yn fwriadol yn trosglwyddo neu'n rhoi gwybodaeth a fynnwyd ffug,

yn euog o dramgwydd.

(4) Such a satellite tracking device shall transmit the required information -

- (a) where the satellite tracking device is capable of being polled:
  - (i) at least every two hours; or
  - (ii) in a case for which a different maximum interval is specified in Annex I of Regulation 1489/97, at or within such intervals; or
- (b) where the satellite tracking device is not capable of being polled, hourly, in the format prescribed by Annex II to Regulation 1489/97 to a Fisheries Monitoring Centre.

### Offences

4.-(1) Where there is a contravention of, or failure to comply with-

- (a) any provision of article 3 of this Order, or
- (b) in respect of any fishing boat to which article 3 of this Order applies, Article 6.1 or 6.2 of Regulation 1489/97,

the owner, the charterer (if any) and the master shall be guilty of an offence.

(2) It is a defence in proceedings for a contravention of, or failure to comply with, article 3(3)(b) or (4) for the owner, the charterer (if any) or the master of the boat to prove that he has complied with Article 6.1 and 6.2 of Regulation 1489/97.

(3) Any person who in any way-

- (a) changes, substitutes or replicates the identification of a satellite tracking device installed on a relevant British fishing boat; or
- (b) removes the satellite tracking device from such a fishing boat;

without prior notification thereof to the National Assembly for Wales shall be guilty of an offence.

(4) In relation to any fishing boat to which article 3 of this Order applies, any person who in any way-

- (a) delays or otherwise interferes with the transmission of required information by a satellite tracking device;
- (b) interferes with the ability of the satellite tracking device to be polled; or
- (c) knowingly transmits or furnishes false required information,

shall be guilty of an offence.

## Cosbau

5.-(1) Bydd person a geir yn euog o dramgwydd perthnasol mewn perthynas â thorri Erthygl 3(3)(b) neu (4) o'r Gorchymyn hwn neu Erthygl 6.1 neu 6.2 o Reoliad 1489/97, neu fethu â chydymffurfio â hwy, yn agored -

- (a) o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy heb fod yn fwy na'r uchafswm statudol;
- (b) o'i gollfarnu ar ddiad, i ddirwy.

(2) Bydd person a geir yn euog o unrhyw dramgwydd perthnasol arall yn agored-

- (a) o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy heb fod yn fwy na £50,000;
- (b) o'i gollfarnu ar ddiad i ddirwy.

## Casglu dirwyon

6.-(1) Pan orfodir dirwy gan lys ynadon ar y meist, y perchennog, y siartrwr, y person sy'n gyfrifol am y cwch pysgota neu unrhyw berson arall a gollfarnir gan y llys o dramgwydd perthnasol neu dramgwydd o dan erthygl 9 o'r Gorchymyn hwn, er mwyn casglu swm y dirwy, fe gaiff y llys-

- (a) cyhoeddi gwarant atafaelu yn erbyn y cwch a oedd yn gysylltiedig â chyflawni'r dramgwydd, ei offer a'i haldiad ac unrhyw eiddo sydd gan y person a gollfarnwyd; neu
- (b) gorchymyn cadw'r cwch am gyfnod o ddim mwy na thri mis o ddyddiad y gollfarn neu hyd nes y telir y ddirwy neu y cesglir swm y ddirwy yn unol ag unrhyw warant o'r fath, p'un bynnag fydd yn digwydd gyntaf.

(2) Bydd adrannau 77(1) a 78 o Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980(a) (gohirio cyhoeddi gwarantau atafaelu, a diffygion ynddynt) yn gymwys i warant atafaelu a gyhoeddir o dan yr erthygl hon fel y maent yn gymwys i warant atafaelu a gyhoeddir o dan Ran III o'r Ddeddf honno.

(3) Pan fydd gorchymyn trosglwyddo dirwy mewn perthynas â dirwy ynglŷn â throsedd berthnasol yn cael ei wneud o dan adran 90 o Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980, Erthygl 95 o Orchymyn Llysoedd Ynadon (Gogledd Iwerddon) 1981(b) neu adran 222 o Ddeddf Gweithdrefn Droseddol (Yr Alban) 1995(c) ac yn pennu rhanbarth llys ynadon yng Nghymru, bydd yr erthygl hon yn gymwys fel pe bai'r ddirwy wedi'i gorfodi gan lys o fewn y rhanbarth llys ynadon hwnnw.

## Pwerau swyddogion pysgodfeydd môr Prydeinig mewn perthynas â chychod pysgota

7.-(1) Er mwyn gorfodi erthygl 4 o'r Gorchymyn hwn, neu unrhyw ddarpariaeth gyfatebol mewn gorchymyn sy'n ymestyn i unrhyw ran arall o'r

- (a) 1980 p.43.
- (b) O.S. 1981/1675 (G.I. 26)
- (c) 1995 p.46.

## Penalties

5.-(1) A person found guilty of a relevant offence in respect of a contravention of, or failure to comply with, article 3(3)(b) or (4) of this Order or Article 6.1 or 6.2 of Regulation 1489/97 shall be liable-

- (a) on summary conviction to a fine not exceeding the statutory maximum;
- (b) on conviction on indictment to a fine.

(2) A person found guilty of any other relevant offence shall be liable-

- (a) on summary conviction to a fine not exceeding £50,000;
- (b) on conviction on indictment to a fine.

## Recovery of fines

6.-(1) Where a fine is imposed by a magistrates' court on the master, owner, charterer, person responsible for the fishing boat or any other person who is convicted by the court of a relevant offence or an offence under article 9 of this Order, the court may for the purpose of levying the amount of the fine-

- (a) issue a warrant of distress against the boat involved in the commission of the offence and its gear and catch and any property of the person convicted; or
- (b) order the boat to be detained for a period not exceeding three months from the date of the conviction or until the fine is paid or the amount of the fine is levied in pursuance of any such warrant, whichever occurs first.

(2) Sections 77(1) and 78 of the Magistrates' Courts Act 1980(a) (postponement of issue of, and defects in, warrants of distress) shall apply to a warrant of distress issued under this article as they apply to a warrant of distress issued under Part III of that Act.

(3) Where in relation to a fine in respect of a relevant offence a transfer of fine order under section 90 of the Magistrates' Courts Act 1980, Article 95 of the Magistrates' Courts (Northern Ireland) Order 1981(b) or section 222 of the Criminal Procedure (Scotland) Act 1995(c) specifies a petty sessions area in Wales this article shall apply as if the fine were imposed by a court within that petty sessions area.

## Powers of British sea-fishery officers in relation to fishing boats

7.-(1) For the purpose of the enforcement of article 4 of this Order, or any equivalent provision in an order extending to any other part of the United Kingdom

- (a) 1980 c.43.
- (b) S.I. 1981 /1675 (N.I. 26).
- (c) 1995 c.46.



Deyrnas Unedig a wneir er mwyn gweithredu mesur Cymunedol ar gyfer monitro â lloeren, caiff swyddog pysgodfeydd môr Prydeinig arfer y pwerau a roddir gan baragraffau (2) i (4) o'r erthygl hon mewn perthynas ag unrhyw gwch pysgota yn y môr tiriogaethol cyfagos at Gymru.

(2) Caiff y swyddog fynd ar fwrdd y cwch, gyda phersonau a neilltuwyd i gynorthwyo gyda'i ddyletswyddau neu hebddynt, a chaiff ei gwneud yn ofynnol bod y cwch yn stopio a gwneud unrhyw beth arall a fydd yn hwyluso naill ai mynd ar fwrdd y cwch neu fynd oddi arno.

(3) Caiff y swyddog ei gwneud yn ofynnol bod y meistr ac unrhyw bersonau eraill sydd ar fwrdd y cwch yn bresennol a chaiff wneud unrhyw archwiliad ac ymholiadau sy'n ymddangos i'r swyddog yn angenrheidiol at y diben a grybwyllir ym mharagraff (1) o'r erthygl hon ac, yn benodol -

- (a) caiff chwilio am unrhyw offer ar y cwch, ei archwilio a'i brofi, gan gynnwys y ddyfais olrhain loerennol, a'i gwneud yn ofynnol bod personau sydd ar fwrdd y cwch yn gwneud unrhyw beth sy'n ymddangos i'r swyddog yn angenrheidiol ar gyfer hwyluso chwiliad, archwiliad neu brawf o'r fath;
- (b) caiff ei gwneud yn ofynnol bod unrhyw berson sydd ar fwrdd y cwch yn cyflwyno unrhyw ddogfen ynglŷn â'r cwch neu offer y cwch, unrhyw weithrediadau pysgota neu weithrediadau ategol iddynt neu â'r personau sydd ar fwrdd y cwch sydd yng nghadwraeth neu feddiant y person hwnnw;
- (c) er mwyn canfod a oes tramgwydd perthnasol wedi'i chyflawni, caiff chwilio'r cwch am unrhyw ddogfen o'r fath a gall ei gwneud yn ofynnol bod unrhyw berson ar fwrdd y cwch yn gwneud unrhyw beth sy'n ymddangos i'r swyddog yn angenrheidiol ar gyfer hwyluso'r chwilio;
- (ch) caiff archwilio a chopio unrhyw ddogfen o'r fath a gyflwynir i'r swyddog neu y deuir o hyd iddi ar fwrdd y cwch, a'u cadw yn ei feddiant tra bydd yn cwblhau unrhyw chwiliad, archwiliad ac arolygiad y darperir ar eu cyfer o dan yr erthygl hon;
- (d) heb ragfarn i is-baragraffau (c) ac (ch), caiff ei gwneud yn ofynnol bod y meistr ac unrhyw berson sydd am y tro yn gyfrifol am y cwch yn trosi'r holl ddogfennau o'r fath sydd ar system gyfrifiadurol i ffurf weladwy a darllenadwy, gan gynnwys ei gwneud yn ofynnol bod unrhyw ddogfen o'r fath yn cael ei chyflwyno mewn ffurf y gellir mynd â hi oddi yno; ac
- (dd) os oes gan y swyddog reswm dros amau bod tramgwydd perthnasol wedi'i chyflawni mewn perthynas â'r cwch, caiff gipio a chadw unrhyw ddogfen o'r fath a gyflwynir neu y deuir o hyd iddi ar fwrdd y cwch er mwyn

made for the purposes of implementing a Community satellite monitoring measure, a British sea-fishery officer may exercise in relation to any fishing boat within the territorial sea adjacent to Wales the powers conferred by paragraphs (2) to (4) of this article.

(2) The officer may go on board the boat, with or without persons assigned to assist with his or her duties, and may require the boat to stop and do anything else which will facilitate either the boarding of, or the disembarkation from, the boat.

(3) The officer may require the attendance of the master and other persons on board the boat and may make any examination and inquiry which appears to the officer to be necessary for the purpose mentioned in paragraph (1) of this article and, in particular-

- (a) may search for and examine, and may test, any equipment of the boat, including the satellite tracking device, and require persons on board the boat to do anything which appears to the officer to be necessary for facilitating such a search, examination or test;
- (b) may require any person on board the boat to produce any document relating to the boat, or the equipment of the boat, to any fishing operations or other operations ancillary thereto or to the persons on board which is in that person's custody or possession;
- (c) for the purpose of ascertaining whether a relevant offence has been committed, may search the boat for any such document and may require any person on board the boat to do anything which appears to the officer to be necessary for facilitating the search;
- (d) inspect, take copies of and retain in his or her possession while completing any search, examination and inspection provided for under this article, any such document produced to the officer or found on board;
- (e) without prejudice to sub-paragraphs (c) and (d), may require the master and any person for the time being in charge of the boat to render all such documents on a computer system into a visible and legible form, including requiring any such document to be produced in a form in which it may be taken away; and
- (f) where the boat is one in relation to which the officer has reason to suspect that a relevant offence has been committed, may seize and detain any such document produced or found on board for the purpose of enabling the

galluogi defnyddio'r ddogfen fel tystiolaeth mewn achos ynglŷn â'r dramgwydd.

(4) Os yw'n ymddangos i swyddog pysgodfeydd môr Prydeinig fod tramgwydd perthnasol wedi'i chyflawni ar unrhyw amser, caiff y swyddog -

- (a) ei gwneud yn ofynnol bod meist'r y cwch y cyflawnwyd y tramgwydd mewn perthynas ag ef yn mynd â'r cwch a'i griw i'r porthladd sy'n ymddangos i'r swyddog fel y porthladd cyfleus agosaf, neu caiff y swyddog wneud hynny ei hun; a
- (b) cadw'r cwch yn y porthladd neu ei gwneud yn ofynnol bod y meist'r yn ei gadw yn y porthladd;

a phan fydd swyddog o'r fath yn cadw neu'n ei gwneud yn ofynnol cadw'r cwch rhaid i'r swyddog gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i'r meist'r yn datgan y caiff y cwch ei gadw neu ei bod yn ofynnol ei gadw hyd oni thynnir yr hysbysiad yn ôl drwy gyflwyno i'r meist'r hysbysiad ysgrifenedig arall a lofnodwyd gan swyddog pysgodfeydd môr Prydeinig.

#### **Amddiffyn swyddogion**

8. Ni fydd swyddog pysgodfeydd môr Prydeinig na pherson sy'n ei gynorthwyo yn rhinwedd erthygl 7(2) o'r Gorchymyn hwn yn atebol mewn unrhyw achosion sifil neu droseddol am unrhyw beth a wneir drwy arfer honedig o'r pwerau a roddwyd iddo yn rhinwedd erthygl 7 o'r Gorchymyn hwn os yw'r llys wedi'i fodloni fod y weithred wedi'i gwneud yn ddidwyll, bod sail resymol dros wneud hynny a'i bod wedi'i gwneud gyda medr a gofal rhesymol.

#### **Rhwystro etc.**

9. Bydd unrhyw berson sydd -
- (a) heb esgus rhesymol yn methu â chydymffurfio ag unrhyw ofyniad a osodir gan swyddog pysgodfeydd môr Prydeinig o dan y pwerau a roddwyd iddo neu iddi yn rhinwedd erthygl 7 o'r Gorchymyn hwn;
  - (b) heb esgus rhesymol yn rhwystro unrhyw berson arall rhag cydymffurfio ag unrhyw ofyniad o'r fath; neu
  - (c) yn rhwystro unrhyw swyddog o'r fath sydd wrthi'n arfer unrhyw un o'r pwerau hynny,

yn euog o drosedd, ac yn agored -

- (i) o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy heb fod yn fwy na'r uchafswm statudol;
- (ii) o'i gollfarnu ar ddiad, i ddirwy.

#### **Darpariaethau ynglŷn â throseddau ac achosion**

10.-(1) Pan brofir bod unrhyw drosedd o dan erthygl 4 o'r Gorchymyn hwn a gyflawnwyd gan gorff corfforedig wedi'i gyflawni gyda chydysyniad neu

document to be used as evidence in proceedings for the offence.

(4) Where it appears to a British sea-fishery officer that a relevant offence has at any time been committed, the officer may-

- (a) require the master of the boat in relation to which the offence took place to take, or the officer may personally take, the boat and its crew to the port which appears to the officer to be the nearest convenient port; and
- (b) detain or require the master to detain the boat in the port;

and where such an officer detains or requires the detention of a boat the officer shall serve on the master a notice in writing stating that the boat will be or is required to be detained until the notice is withdrawn by the service on the master of a further notice in writing signed by a British sea-fishery officer.

#### **Protection of officers**

8. A British sea-fishery officer or a person assisting him or her by virtue of article 7(2) of this Order shall not be liable in any civil or criminal proceedings for anything done in the purported exercise of the powers conferred on him or her by virtue of article 7 of this Order if the court is satisfied that the act was done in good faith, that there were reasonable grounds for doing it and that it was done with reasonable skill and care.

#### **Obstruction etc.**

9. Any person who-
- (a) fails without reasonable excuse to comply with any requirement imposed by a British sea-fishery officer under the powers conferred on him or her by virtue of article 7 of this Order;
  - (b) without reasonable excuse prevents any other person from complying with any such requirement; or
  - (c) obstructs any such officer who is exercising any of those powers,

shall be guilty of an offence, and liable-

- (i) on summary conviction to a fine not exceeding the statutory maximum;
- (ii) on conviction on indictment to a fine.

#### **Provisions as to offences and proceedings**

10.-(1) Where any offence under article 4 of this Order committed by a body corporate is proved to have been committed with the consent or connivance of, or

ymoddefiad cyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog tebyg arall o'r corff corfforedig, neu berson yn honni ei fod yn gweithredu mewn unrhyw swyddogaeth o'r fath, neu y gellir ei phriodoli i unrhyw esgeulustod ar ei ran, bydd y person hwnnw, yn ogystal â'r corff corfforedig, yn euog o'r drosedd ac yn agored i achos a chosb yn unol â hynny.

(2) Pan brofir bod unrhyw drosedd o dan erthygl 4 o'r Gorchymyn hwn a gyflawnwyd gan bartneriaeth wedi'i chyflawni gyda chydysniad neu ymoddefiad partner, neu y gellir ei phriodoli i unrhyw esgeulustod ar ei ran, bydd y person hwnnw yn ogystal â'r bartneriaeth yn euog o'r drosedd ac yn agored i achos a chosb yn unol â hynny.

(3) Pan brofir bod unrhyw drosedd o dan erthygl 4 o'r Gorchymyn hwn a gyflawnwyd gan gymdeithas anghorfforedig (heblaw partneriaeth) wedi'i chyflawni gyda chydysniad neu ymoddefiad unrhyw swyddog o'r gymdeithas neu unrhyw aelod o'i chorff llywodraethu, neu y gellir ei phriodoli i unrhyw esgeulustod ar ei ran, bydd y person hwnnw yn ogystal â'r gymdeithas yn euog o'r drosedd ac yn agored i achos a chosb yn unol â hynny.

#### **Derbynioldeb coflyfrau a dogfennau eraill fel tystiolaeth**

##### **11. Bydd unrhyw -**

- (a) coflyfr a gedwir o dan Erthyglau 6, 17.2 neu 28c;
- (b) datganiad a gyflwynir o dan Erthyglau 8.1, 11, 12, 17.2 neu 28f;
- (c) adroddiad ymdrech a gwblheir o dan Erthyglau 19b a 19c;
- (ch) dogfen a lunnir o dan Erthyglau 9 neu 13,

o Reoliad 2847/93 ac unrhyw wybodaeth a fynnwyd a dderbynnir gan Ganolfan Monitro Pysgodfeydd, mewn unrhyw achos ynglŷn â throedd berthnasol, yn dystiolaeth o'r materion a ddatgenir ynddynt.

*Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(a).*

6 Ebrill 2000

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

to be attributable to any neglect on the part of, a director, manager, secretary or other similar officer of the body corporate, or a person purporting to act in any such capacity, that person, as well as the body corporate, shall be guilty of the offence and liable to be proceeded against and punished accordingly.

(2) Where any offence under article 4 of this Order committed by a partnership is proved to have been committed with the consent or connivance of, or to be attributable to any neglect on the part of, a partner, that person as well as the partnership shall be guilty of the offence and liable to be proceeded against and punished accordingly.

(3) Where any offence under article 4 of this Order committed by an unincorporated association (other than a partnership) is proved to have been committed with the consent or connivance of, or to be attributable to any neglect on the part of, any officer of the association or any member of its governing body, that person as well as the association shall be guilty of the offence and liable to be proceeded against and punished accordingly.

#### **Admissibility in evidence of logbooks and other documents**

##### **11. Any-**

- (a) logbook kept under Articles 6, 17.2 or 28c;
- (b) declaration submitted under Articles 8.1, 11, 12, 17.2 or 28f;
- (c) effort report completed under Articles 19b and 19c;
- (d) document drawn up under Articles 9 or 13,

of Regulation 2847/93 and any required information received by a Fisheries Monitoring Centre shall, in any proceedings for a relevant offence, be evidence of the matters stated therein.

*Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(a).*

6th April 2000

The Presiding Officer of the National Assembly

(a) 1998 p.38.

(a) 1998 c.38.

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

---

OFFERYNNAU STATUDOL

---

**2000 Rhif 1078 (Cy. 71)**

**PYSGODFEYDD MÔR,  
CYMRU**

Gorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi  
Mesurau Cymunedol ar gyfer  
Monitro â Lloeren) (Cymru) 2000

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

---

STATUTORY INSTRUMENTS

---

**2000 No. 1078 (W. 71)**

**SEA FISHERIES,  
WALES**

The Sea Fishing (Enforcement of  
Community Satellite Monitoring  
Measures) (Wales) Order 2000

© Hawlfraint y Goron 2000

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg El Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

**£3.00**

WO6100 06/00 ON

© Crown copyright 2000

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090054-5



9 780110 900544